Annwyl Gwsmer

**Penderfyniad yn dilyn Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

**Swyddfa Bost Pontycymer**
**6 Stryd Rhydychen, Pontycymer, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 8DA**

Rwy'n ysgrifennu i gadarnhau ein bod, wedi cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus lleol ac adolygiad, wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynllun i symud y Swyddfa Bost uchod i Smart Lettings yn 50A Stryd Rhydychen, Pontycymer, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 8DB, lle caiff ei rhedeg fel cangen leol ei natur gan bartner manwerth.

Hoffwn ddiolch i bawb a neilltuodd amser i roi sylwadau a gwybodaeth inni. Bu'r holl adborth a gawsom yn help i ni ddeall barn cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr yn well a chafodd y sylwadau eu hystyried, ynghyd â'r holl ffactorau perthnasol eraill, wrth i ni wneud ein penderfyniad. Cafodd crynodeb o'r adborth ei amgáu, ynghyd â thaflen wybodaeth sy'n rhoi manylion pellach am y gangen newydd.

Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r ymatebion a gafwyd, rydym yn ffyddiog o hyd y bydd cynllun a lleoliad y gangen newydd yn dal i ateb gofynion y cwsmeriaid ac yn darparu gwasanaeth rhagorol, yn ogystal â diogelu hyfywedd hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yn y gymuned leol.

Bydd y gangen bresennol yn cau am 17:30 ddydd Iau 13 Ebrill 2023, a bydd y gangen newydd yn agor yn Smart Lettings, 50A Stryd Rhydychen, Pontycymer am 13:00 ddydd Gwener 14 Ebrill 2023. Os bydd rhaid newid y dyddiadau hyn, am resymau na ellir eu rhagweld ar hyn o bryd, bydd posteri'n cael eu gosod mewn canghennau er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Yn ystod y cyfnod trosglwyddo, gall cwsmeriaid ddefnyddio unrhyw gyfleusterau Swyddfa'r Post eraill sy'n gyfleus. Isod, fe welwch fanylion am ddwy gangen Swyddfa'r Post gyfagos:

- Swyddfa Bost Blaen-garw, The Strand, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 8AA
- Swyddfa Bost Y Betws, Heol Y Betws, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 8YD

Mae'r wybodaeth hon ar gael hefyd ar Hyb Ymgynghori Swyddfa'r Post yn: postofficeviews.co.uk

Mae'r hysbysiad hwn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae detholiad sy'n ymwneud ag Ymgynghori ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yr eiddoch yn gywir

*Sarah Cottrell*

**Sarah Cottrell**
**Rheolwraig Darpariaeth y Rhwydwaith**
**Swyddfa'r Post Cyfyngedig**

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig

**postoffice.co.uk**

comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Atodiad A**

**Ymateb i'r Ymgynghoriad Cyhoeddus Lleol**

**Dechreuodd yr ymgynghoriad** 3 Chwefror 2023
**Daeth yr ymgynghoriad i ben** 17 Mawrth 2023

**Ymatebion o'r ymgynghoriad**

- Cafwyd 73 ymateb gan gwsmeriaid a chynrychiolydd lleol

**Y prif faterion a godwyd**

- Pellter a Lleoliad
- Parcio a Thagfeydd Trafnidiaeth
- Mynediad a Lle
- Cynhyrchion a Gwasanaethau
- Staff

**Ymateb i'r materion a godwyd**

Cawsom ymatebion gan gwsmeriaid yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cyhoeddus lleol, a oedd o blaid symud y gangen ac yn croesawu cadw gwasanaethau Swyddfa'r Post i'r gymuned leol ym Mhontycymer. Roedd rhai cwsmeriaid yn pryderu ynghylch ymgymryd â'u busnes Swyddfa'r Post mewn amgylchedd sy'n wahanol i'r hyn y maent yn gyfarwydd ag ef, gan gynnwys y pellter, lleoliad, mynediad i'r adeilad, parcio a thagfeydd traffig. Wrth wneud y penderfyniad yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, bu'n rhaid i ni bwyso a mesur y sylwadau a'r pryderon a godwyd, ynghyd â'r angen i sicrhau gwasanaeth sy'n gynaliadwy ac yn fasnachol hyfyw ar gyfer y dyfodol. Yn debyg i lawer o fân-werthwyr y stryd fawr, bu'n rhaid i ni ddatblygu ein ffyrdd o weithio er mwyn gallu cynnal gwasanaethau Swyddfa'r Post i'n cwsmeriaid. Bydd symud y gangen i adeilad yr Asiant Tai a'i rhedeg fel un o'r modelau Swyddfa Bost leol yn helpu i sicrhau dyfodol hirdymor gwasanaethau Swyddfa'r Post yn yr ardal leol.

**Pellter a Lleoliad**

Gydag unrhyw symud, mae'n anorfod y bydd yn haws i rai cwsmeriaid gyrraedd y lleoliad newydd; yn anffodus, bydd eraill yn gorfod teithio ymhellach. Ni allwn ond ymddiheuro am hyn, ond rydym yn hyderus o hyd na fydd y symud yn amharu'n ormodol ar gwsmeriaid wrth iddynt gyrchu gwasanaethau Swyddfa'r Post. Bydd y gangen newydd tua 180 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur, ar yr un heol, sef Stryd Rhydychen. Credwn taw'r adleoliad hwn yw'r ffordd fwyaf effeithiol o wneud yn siŵr y bydd gwasanaethau Swyddfa'r Post ym Mhontycymer yn dal i fod yn hyfyw yn yr hirdymor.

**Parcio a Thagfeydd Trafnidiaeth**

Er ein bod wedi ystyried y pryderon am barcio a thagfeydd traffig yng nghyffiniau'r lleoliad newydd, mae hyn yn broblem gyffredinol mewn sawl lleoliad ar draws y wlad ac mae darparu llefydd parcio y tu hwnt i reolaeth uniongyrchol Swyddfa'r Post Cyfyngedig. I gwsmeriaid sydd â thrafnidiaeth eu hunain, gallwn gadarnhau y bydd modd parcio wrth ymyl y ffordd ar hyd Stryd Rhydychen, a bydd llefydd parcio penodol ar gael i bobl anabl. Felly, rwy'n fodlon y bydd y parcio wrth y gangen newydd yn dal i ateb gofynion y cwsmeriaid a fydd yn defnyddio'r Swyddfa Bost.

**Mynediad a Lle**

Bydd Swyddfa Bost newydd Pontycymer y tu mewn i adeilad asiant tai Smart Lettings. Rydym yn sylweddoli fod Swyddfa’r Post yn chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl, yn enwedig y bobl hŷn a phobl anabl, ac rydym am wneud ein gwasanaethau mor hygyrch â phosibl. Ar hyn o bryd mae yna ddrws llydan a gris wrth y fynedfa i'r adeilad newydd. Fodd bynnag, bydd yr asiant newydd yn darparu ramp symudol â chanllawiau wrth y fynedfa er mwyn helpu cwsmeriaid â phroblemau symudedd neu ddefnyddwyr cadair olwyn i fynd i mewn i'r adeilad. Er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid fod ramp symudol ar gael, bydd arwydd clir wrth y fynedfa i roi gwybod sut mae gofyn am gael defnyddio’r ramp. Hefyd, bydd yna gloch i'w chanu am gymorth.  Bydd y gloch a'r arwydd o fewn cyrraedd defnyddwyr cadair olwyn.

Rydym wedi cydweithio'n glòs â'r asiant newydd ar gynllun mewnol yr adeilad; cafodd rhai celfi gosod a ffitiadau eu had-drefnu neu eu symud i wneud yn siŵr fod llwybr clir i mewn i'r adeilad a'i bod yn hawdd cyrraedd cownter Swyddfa’r Post. Bydd hyn yn gwneud yn siŵr na fydd trafferth wrth gyrraedd cownter Swyddfa'r Post. Bydd y fynedfa, y llwybrau a'r man ciwio hefyd yn cael eu cadw’n glir a bydd digon o le i gwsmeriaid a chadair olwyn symud yn rhwydd o gwmpas y siop.

**Cynhyrchion a Gwasanaethau**

Mae trafodion Swyddfa'r Post mewn cangen leol ffasiwn newydd i fod yn gyflym ac effeithlon fel bod cwsmeriaid yn cael gwasanaeth cyflym ac effeithlon, gan wneud y gwasanaeth yn hwylus i gwsmeriaid a gweithredwyr, ac ni fydd rhaid aros mor hir am wasanaeth. Gallaf gadarnhau y bydd y rhan fwyaf o gynhyrchion a gwasanaethau Swyddfa'r Post ar gael o hyd ar ôl y symud.  Bydd y nifer fach o wasanaethau na fydd yn cael eu cynnig yn dal i fod ar gael yn Swyddfa Bost Dunraven Place sydd o fewn cyrraedd gwasanaeth bws uniongyrchol. Hefyd, gall cwsmeriaid ddefnyddio cyfleusterau peiriant arian ATM Swyddfa'r Post y tu allan i gangen Swyddfa'r Post Blaen-garw, a theithio yno'n syth ar fws.

Yn ogystal, gall gwsmeriaid bancio personol godi arian am ddim wrth dil Swyddfa'r Post. Mae'r oriau agor estynedig yn golygu bod modd gwneud hynny bum niwrnod yr wythnos.

O ran y blwch postio, y drefn arferol yw ein bod yn rhoi gwybod i 'r Post Brenhinol am ein cynlluniau oherwydd nhw sy'n gyfrifol am bopeth sy'n ymwneud â dosbarthu post. Felly, nhw fydd yn penderfynu a ddylid newid lleoliad neu osod blwch postio newydd. Maen nhw'n fusnes ar wahân i Swyddfa'r Post Cyf a bydd ganddyn nhw eu gweithdrefnau eu hunain, a all  gynnwys cyflwyno ceisiadau cynllunio a rhoi ystyriaeth i wasanaethau eraill yn yr ardal.

**Staff**

Mae safon yr hyfforddiant i'r staff yr un mor uchel ag yw yn ein holl ganghennau. Mae hyn yn cynnwys parchu cyfrinachedd cwsmeriaid a glynu wrth ein camau diogelwch llym er mwyn diogelu staff a chwsmeriaid. Bydd unrhyw staff a fydd yn ymwneud â thrafodion Swyddfa'r Post wedi cael eu hyfforddi ynghylch sut i gydymffurfio mewn sawl maes, gan gynnwys Diogelu Data a Thrafod Post. Yn ogystal, bydd digon o staff ar gael i ateb gofynion y cwsmeriaid yn ystod y cyfnodau prysuraf.

Mae manylion llawn am y gangen newydd ar ddiwedd y llythyr hwn, ynghyd â rhestr o'r cynhyrchion a gwasanaethau a fydd ar gael.

**Atodiad B**

**Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Pontycymer**

**Smart Lettings**
**50A Stryd Rhydychen**
**Pontycymer**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF32 8DB**

**Yr oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Llun - Gwener | 09:00 - 17:00 |
| Dydd Sadwrn | Ar Gau |
| Dydd Sul | Ar Gau |

**Yn ystod y pandemig Coronafeirws mae'n bosib y bydd rhaid newid oriau agor y gangen. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf am ganghennau ar ein gwefan www.postoffice.co.uk/branch-finder**

**Cynhyrchion a Gwasanaethau**
Bydd dewis tebyg o gynhyrchion a gwasanaethau ar gael o hyd, ac eithrio Yswiriant Teithio ar Gais. Yn ogystal, bydd ceisiadau trwydded pysgota â gwialen a oedd ar gael tan 15 Ionawr 2023, ar gael nawr gan Asiantaeth yr Amgylchedd drwy'r ddolen isod:
https://www.gov.uk/fishing-licences/buy-a-fishing-licence

**Mannau Gwasanaeth**
Bydd man gwasanaeth Swyddfa'r Post mewn lle penodol y tu mewn i adeilad yr Asiant Tai.

**Mynediad**
Ar hyn o bryd mae yna ddrws llydan a gris wrth y fynedfa i'r adeilad newydd. Bydd yr asiant newydd yn darparu ramp symudol â chanllawiau wrth y fynedfa er mwyn helpu cwsmeriaid â phroblemau symudedd neu ddefnyddwyr cadair olwyn i fynd i mewn i'r adeilad. Er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid fod ramp symudol ar gael, bydd arwydd clir wrth y fynedfa i roi gwybod sut mae gofyn am gael defnyddio'r ramp. Hefyd, bydd yna gloch i'w chanu am gymorth. Bydd y gloch a'r arwydd o fewn cyrraedd defnyddwyr cadair olwyn a bydd y staff yn ymateb yn brydlon i unrhyw geisiadau. Bydd dolen glyw y tu mewn.

**Cyrraedd yno**
Mae'r gangen newydd tua 180 metr o'r gangen bresennol, ar hyd tir amrywiol ei natur.

Bydd modd parcio wrth ymyl y ffordd ar hyd Stryd Rhydychen am gyfnod cyfyngedig, a bydd llefydd parcio penodol i bobl anabl.

**Manwerth**
Asiant Gwerthu a Gosod Tai

**Dyddiad y symud**
Ddydd Gwener 14 Ebrill 2023 am 13:00

| **Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost Pontycymer** | |
|---|---|
| **I gael gwybod a yw cynnyrch ar gael, ffoniwch 03457 22 33 44.**<br>**Mae manylion am werth uchaf trafodion ar gael gan y sawl sy'n rhedeg y Swyddfa Bost.** | |
| | **Y gangen newydd** |
| **Post** | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✓ |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post | ✓ |
| Signed For | ✓ |
| Signed Delivery | ✓ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✓ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✓ |
| Parseli Express a chontract | ✓ |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Tracked a Signed) | ✓ |
| Parseli rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✓ |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✓ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ |
| Local Collect | ✓ |
| Drop & Go | ✓ |
| **Codi arian, adneuon a thaliadau** | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ |
| Bancio personol a busnes: Y cyfan o ran codi arian, adneuon ac ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (cerdyn, cod bar neu â llaw). | ✓ |
| Archebion Post | ✓ |
| Moneygram | ✓ |
| Rhoi newid | ✓ |
| Talu biliau (cerdyn, cod bar neu â llaw) | ✓ |
| Adlenwi allweddi | ✓ |
| **Gyrru** | |
| Treth cerbydau | ✓ |
| **Teithio** | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✓ |
| Arian Teithio ar gais | **Ewros a Doleri** |
| Atgyfeirio Yswiriant Teithio | ✓ |
| Yswiriant Teithio ar gais | ✗ |
| | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✓ |
| **Talu â siec** | ✓ |

| | | |
|---|---|---|
| Mae cynhyrchion eraill ar gael yn Swyddfa Bost **Blaen-garw**, The Strand, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 8AA | Oriau agor: | |
| | Llun, Maw, Iau a Gwen | 09:00 – 13:00; 14:00 – 17:30 |
| | Mer | 09:00 – 13:00 |
| | Sad | 09:00 – 12:30 |
| ac yn Swyddfa Bost **Y Betws**, Heol Y Betws, Y Betws, Pen-y-bont ar Ogwr, CF32 8YD | Oriau agor: | |
| | Llun – Sad | 07:00 – 21:00 |
| | Sul | 08:00 – 21:00 |

# Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)

Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

Byddwn yn **Ymgynghori** – pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:

- Cau cangen Swyddfa'r Post[1] yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[2] er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol[3] Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol[4] am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon; cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:
Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y gŵyn).

**postofficeviews. co.uk.** **comments@postoffice.co.uk** **FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15** **Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.
[2] Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.
[3] Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.
[4] Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn [3] a [4] uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod â diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.